

Canllaw 'The Purple Guide' i iechyd, diogelwch a lles mewn digwyddiadau cerddoriaeth a digwyddiadau tebyg

Gweler <http://www.thepurpleguide.co.uk/> (tanysgrifiad yn £25 y flwyddyn, argymhellir yn gryf)

Penodau a Phrif Bwyntiau:

1. Deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch

- Mae cyfraith iechyd a diogelwch yn rhoi dyletswydd ar fusnesau sydd yn ymwneud â digwyddiadau i sicrhau iechyd a diogelwch eu gweithwyr a'r cyhoedd.
- Mae deddfwriaeth bellach sy'n ymwneud â thrwyddedu adloniant, diogelwch tân a diogelwch mewn meysydd chwaraeon yn berthnasol i ddigwyddiadau, a chyfeirir ato yn 'The Purple Guide'
- Yn gyffredinol, nid yw digwyddiadau sy'n cael eu rhedeg gan wirfoddolwyr (lle nad oes neb yn cael ei gyflogi) yn cael eu cynnwys o dan gyfraith iechyd a diogelwch, oni bai fod rhywun yn rheoli eiddo, ewch i www.gov.uk/government/news/can-do-guidance-will-make-organising-volunteer-events-simpler
- Caiff cyfrifoldeb dros orfodi cyfraith iechyd a diogelwch mewn digwyddiadau ei rannu rhwng yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ac awdurdodau lleol.
- Uchafswm y gosb am dorri Ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch yw hyd at 2 flynedd yn y carchar a dirwy ddiderfyn.
- Yn gyffredinol yr awdurdodau tân ac achub lleol sydd â chyfrifoldeb gyffredinol am orfodi deddfwriaeth diogelwch tân. Mae yna eithriadau megis Meysydd Chwarae, sicrhewch eich bod yn cysylltu â'ch Gwasanaeth Tân a fydd yn gallu egluro hyn i chi.

2. Aseidiadau cynllunio, rheoli a risg

- Mae cynllunio effeithiol yn ganolog i gynnal digwyddiad diogel
- Paratoi cynllun diogelwch digwyddiad
- Rhoi trefniadau rheoli priodol ar waith i sicrhau iechyd a diogelwch gweithwyr a phobl eraill, gan gynnwys gwirfoddolwyr a'r cyhoedd, yn ystod pob cam o'r digwyddiad

- Cynnal asesiad systematig o'r risgiau i weithwyr, gwirfoddolwyr a'r cyhoedd
- Gweithredu mesurau rheoli risg a nodwyd yn yr asesiad risg
- Rhoi trefniadau priodol ar waith i fonitro cydymffurfiaeth ag iechyd a diogelwch
- Rhoi cyngor iechyd a diogelwch digonol
- Cysylltu â phartion eraill sydd â diddordeb, gan gynnwys awdurdodau lleol, rheolwyr stadiwm, gweithredwyr arena, grwpiau cynghori diogelwch a'r gwasanaethau brys, yn fuan yn y broses gynllunio
- Ymchwiliad trylwyr o'r safle a fydd yn cael ei ddefnyddio

3. Lleoliad a dyluniad y safle

- Cynnal asesiad o addasrwydd safle yn fuan yn y broses gynllunio
- Yn yr asesiad hwnnw, dylid cynnwys beth yw natur y digwyddiad, niferoedd y gynulleidfa a'r isadeiledd angenrheidiol
- Dylunio gosodiad y safle er mwyn lleihau'r risg, er enghraifft, i wahanu cerddwyr a cherbydau
- Paratoi cynllun safle a lleoliad
- Sefydlu llwybrau brys
- Cysylltu â budd-ddeiliaid allweddol, megis tiffeddianwyr, yr awdurdod lleol, y gwasanaethau brys lleol, busnesau cyfagos a thrigolion lleol

4. Cynlluniau Wrth Gefn a Chynllunio Rhag Argyfwng

- Pwysleisio pwysigrwydd cael cynlluniau ar waith er mwyn ymateb yn effeithiol i ddylanwadau, digwyddiadau aflonyddgar iechyd a diogelwch ac argyfyngau a allai ddigwydd mewn digwyddiad neu a allai effeithio ar y digwyddiad
- Cydnabod y bydd rhaid i drefnwyr digwyddiadau, heblaw'r rheini sy'n trefnu digwyddiadau bychan, risg isel, drafod â'r gwasanaethau brys, ac asiantaethau perthnasol eraill, i baratoi cynlluniau argyfwng priodol
- Sicrhau bod trefniadau rheoli cadarn ar waith i weithredu'r cynlluniau hyn
- Cydnabod bod pawb sy'n ymwneud â rheoli digwyddiadau (gan gynnwys gweithwyr a gwirfoddolwyr) yn derbyn hyfforddiant gweithdrefnau argyfwng,

ac yn cael eu neilltuo i rolau penodol, a'u bod yn eu deall petai digwyddiad neu argyfwng

- Bod yn ymwybodol mai rheolwr diogelwch y digwyddiad allai fod yn gyfrifol am ymateb i argyfwng
- Cydnabod pwysigrwydd profi'r cynlluniau hyn yn y ffordd fwyaf ymarferol

5. Meddygol

- Sicrhau bod yna lefel briodol o ddarpariaeth feddygol, cymorth cyntaf ac ambiwlans mewn digwyddiad a fydd yn lleihau'r effaith ar wasanaethau GIG lleol
- Ymgymryd ag asesiad meddygol, ambiwlans ac adnoddau cymorth cyntaf
- Dylai cynllun staffio meddygol gael ei baratoi cyn y digwyddiad i sicrhau bod staff yn ei ddefnyddio'n briodol
- Dylai darpariaeth feddygol gael ei ddarparu drwy gydol y digwyddiad, gan gynnwys y cyfnod cyn ac ar ôl y digwyddiad

6. Cyfathrebu

- Rhoi gwybodaeth i weithwyr a phobl eraill a allai gael eu heffeithio gan weithgareddau gwaith, am y peryglon i'w iechyd a diogelwch
- Rhoi gwybodaeth i staff ac ymwelwyr am yr hyn i'w wneud mewn argyfwng
- Sicrhau cydweithrediad a chydlynu priodol gan bawb sy'n gweithio ar y safle. Bydd cyfathrebu effeithiol yn helpu i gyrraedd y nodau
- Asesu gofynion cyfathrebu yr holl sefydliadau sy'n rhan o'r digwyddiad, gan gynnwys ymdrin â gwybodaeth iechyd, diogelwch a lles arferol a chyfathrebu'n effeithiol mewn achos o argyfwng

7. Cludiant

- Mae cerbydau a thraffig safle yn un o brif achosion damweiniau difrifol ac angheuol
- Asesu'r risgiau wrth i gerbydau symud ar y safle yn ystod cyfnod cynllunio'r digwyddiad, ac adnabod pa fesurau sydd eu hangen i reoli'r peryglon yma
- Paratoi cynllun rheoli traffig er mwyn rheoli traffig yn fewnol, a ble y bo'n briodol yn allanol

- Lle y bo'n rhesymol ymarferol, gwahanu cerddwyr a cherbydau yn ystod pob cam o'r digwyddiad
- Rhoi system rheoli traffig ar waith, gan ymgorffori systemau unffordd lle bo hynny'n bosibl
- Sicrhau bod pob gyrrwr yn cael eu hawdurdodi a'u hyfforddi i ddefnyddio cerbydau perthnasol
- Sicrhau bod pob gyrrwr yn gyfarwydd â phrotocolau gyrru ar y safle
- Lleihau cymaint â phosibl yr angen i facio
- Sicrhau bod gyrrwyr cerbydau gwaith, bancwyr / signalwyr a marsialiaid traffig yn cael eu hyfforddi ac yn gymwys

8. Gweithio ar uchder

- Syrthio o uchder yw un o brif achosion marwolaeth ac anaf yn y gweithle
- Mae gweithio ar uchder yn golygu gweithio mewn unrhyw fan, ac os nad oes unrhyw ragofalon ar waith, gallai unigolyn syrthio cryn bellter a chael anaf
- Rhaid i gyflogwyr sicrhau fod pob gwaith ar uchder yn cael ei gynllunio a'i drefnu'n gywir
- Dylid ystyried amodau tywydd a allai beryglu iechyd a diogelwch wrth weithio ar uchder
- Asesu risg gweithio ar uchder a chymryd camau i osgoi, atal neu leihau perygl o ddisgyn, bod yn agored i anaf personol
- Dewis y cyfarpar mynediad cywir ar gyfer y swydd
- Dylai gweithwyr fod yn gymwys yn y gwaith sydd i'w wneud ac wrth ddefnyddio'r offer a ddarperir
- Sicrhau bod risgiau o arwynebau bregus a gwrthrychau a allai ddisgyn yn cael eu rheoli
- Rhoi trefn achub mewn argyfwng ar waith i achub unrhyw un sydd wedi disgyn ac sy'n hongian, ee, o gortyn neu system harnais

9. Strwythurau Symudol Dros Dro

- Gallai methiant unrhyw strwythur symudol dros dro (TDS), waeth pa mor fach, gael effaith ddinistriol. Mae dylunio, adeiladu yn ddiogel, defnyddio a dadadeiladu yn rhannau pwysig o gynllunio digwyddiad

- Sicrhau bod y dyluniad yn bodloni gofynion y cysyniad strwythurol, a bod y lleoliad ar y safle yn briodol, gyda chynllun o sut y bydd yn cael ei adeiladu (a'i ddatgymalu) yn ddiogel
- Gofyn am arweiniad gan bobl sy'n gymwys â'r strwythurau hyn yn gynnar yn y broses gynllunio
- Sicrhau bod y strwythur yn cael ei adeiladu yn unol â'r cynllun y cytunwyd arno
- Dylid adnabod adegau pwysig o ran diogelwch wrth adeiladu, a sicrhau bod gwiriadau yn cael eu cynnal gan unigolyn cymwys cyn i'r gwaith symud ymlaen i'r cyfnod gwirio nesaf
- Ymgymryd â'r gwaith yn ddiogel trwy gael staff cymwys a system rheoli weithredol addas y safle ar waith
- Sicrhau bod system wirio a rheoli dylunio annibynnol er mwyn rheoli newidiadau i strwythur symudol dros dro, ee, cleientiaid yn cysylltu deunydd hysbysebu a fyddai'n effeithio ar lwyth gwynt
- Sicrhau bod trefn cynnal a chadw ac arolygu addas ar gyfer y strwythur wedi'i gwblhau, a fydd angen cael ei fonitro ar gyfer effeithiau gwynt a thywydd
- Dyrannu amser ac adnoddau digonol ar gyfer pob un o'r camau uchod

10. Diogelwch Tân

- Mae deddfwriaeth tân yn ei gwneud yn ofynnol bod â phroses rheoli risg ar waith sy'n canolbwyntio ar leoedd ac adeiladau
- Cynnal asesiad risg diogelwch tân, neu ddefnyddio gwasanaethau person cymwys i wneud hynny
- Ymgynghori a chysylltu â'r awdurdod tân ac achub lleol yn y cam cynllunio, ac ar ôl hynny fel y bo angen
- Llunio cynllun rheoli tân
- Nodi ffynonellau posibl a allai gynnau tân a'i fegino
- Sefydlu'r mesurau rheoli
- Bod â chynllun ar waith ar gyfer gadael yr adeilad
- Gweithredu a gorfodi proses briodol a rhagofalon tân cyffredinol ar bob cam o'r digwyddiad
- Darparu ffyrdd digonol o seinio'r larwm, a llwybrau dianc addas a digonol
- Darparu offer diffodd tân addas a digonol

11. Trydanol a gwifrau

- Bwriedir i'r cyngor a roddir yn y bennod hon fod yn drosolwg. Rhaid i gontractwyr trydanol ymgynghori â'r dogfennau a restrir ar gyfer canllawiau penodol
- Dylai cynllun asesu risg y digwyddiad a'r cynlluniau digwyddiadau mawr gwmpasu'r holl beryglon posibl sy'n gysylltiedig â'r gosodiadau trydanol a goleuadau
- Dylai offer allu gwrthsefyll y tywydd a bod wedi'u gosod ymhell oddi wrth y cyhoedd
- Rhaid cyfeirio ceblau mewn modd a fydd yn lleihau peryglon o faglu a difrod mecanyddol ar draws y safle
- Ystyried lleoliad generaduron i alluogi ail-lenwi â thanwydd ac atal niwsans sŵn gormodol

12. Rhwystrau a ffensys

- Mae dewis y system gywir o ran rhwystrau neu ffensys yn hanfodol i sicrhau diogelwch y dorf. Mae angen i chi ddeall y gwahanol fathau, eu cryfderau a'r defnydd priodol a wneir ohonynt
- Dewis cyflenwr addas, a fydd yn gallu darparu'r holl ddarluniau, cynlluniau ac asesiadau risg angenrheidiol
- Rhaid adeiladu system rhwystrau yn y ffordd gywir i sicrhau nad yw'n achosi unrhyw risgiau i'r cyhoedd

13. Rheoli'r dorf

- Mae dewis y system gywir o ran rhwystrau neu ffensys yn hanfodol i sicrhau diogelwch y dorf. Mae angen i chi ddeall y gwahanol fathau, eu cryfderau a'r defnydd priodol a wneir ohonynt
- Dewis cyflenwr addas, a fydd yn gallu darparu'r holl ddarluniau, cynlluniau ac asesiadau risg angenrheidiol
- Rhaid adeiladu system rhwystrau yn y ffordd gywir i sicrhau nad yw'n achosi unrhyw risgiau i'r cyhoedd

14. Effeithiau arbennig

- Rhaid cynllunio'r defnydd o effeithiau arbennig ac effeithiau gweledol mewn digwyddiad yn briodol
- Dylai unigolyn cymwys asesu risgiau sy'n gysylltiedig ag effeithiau arbennig a dylid rhoi mesur rheoli risg effeithiol ar waith
- Rhaid i unigolion sy'n ymwneud â chynllunio, cydosod a gweithredu unrhyw effeithiau arbennig fod yn gymwys ac wedi cael hyfforddiant addas
- Rhaid darparu digon o amser ac adnoddau i baratoi ac ymarfer
- Rhaid sicrhau bod cyfleusterau diogel ar gael ar gyfer cydosod, ffiwsio ac ati o ran effeithiau ffrwydrol cyn eu defnyddio
- Rhaid gwneud trefniadau ar gyfer argyfwng

15. Digwyddiad Difyrion

- Yn ystod y cam cynllunio, ystyried y math o ddifyrion ac atyniadau a fydd yn y digwyddiad
- Gall difyrion ac atyniadau gynnwys ffeiriau, reidiau ffair unigol, dyfeisiau aer (e.e. cestyll bownsio), neidio bynji, pobl sy'n bwyta tân, ac ati
- Bod yn ofalus wrth ddewis lleoliad atyniadau i sicrhau bod y ddaear yn addas (mae'n debyg mai'r peth gorau yw gadael hyn i'r rheolydd/prydlesai, ynghyd â'r cynllun y safle, os oes nifer o ddyfeisiau) ond byddai'n ddoeth pe bai'r ddwy ochr yn cyfathrebu â'i gilydd.
- Gwneud yn siŵr bod mynediad priodol ar gyfer cerbydau'r gwasanaethau brys
- Sicrhau bod lleoliad atyniadau yn caniatáu i'r dorf symud o gwmpas yn ddiogel
- Diffinio cyfrifoldebau ar gyfer rheoli iechyd a diogelwch yn glir
- Dylai trefnwyr digwyddiadau sicrhau bod rheolwyr reidiau yn arolygu a chynnal a chadw eu hoffer ac yn cydymffurfio â'u dyletswyddau fel gweithredwyr fel y gellir rhedeg eu reidiau'n ddiogel

16. Rheoli gwastraff

- Mae methu â rheoli gwastraff yn effeithiol mewn digwyddiadau yn cyflwyno risgiau uniongyrchol ac anuniongyrchol i iechyd a diogelwch gweithwyr a'r rhai sy'n mynychu
- Dylai trefnwyr digwyddiadau fonitro unrhyw wastraff sy'n cronni yn barhaus (yn enwedig defnyddiau hylosg) yn ystod y digwyddiad a chymryd mesurau angenrheidiol i'w symud
- Cynllunio ar gyfer storio, trin a chludo gwastraff cyffredinol a charthion
- Dylai trefnwyr digwyddiadau asesu'r risgiau sy'n gysylltiedig â chynhyrchu, storio, trin a chludo gwastraff, a chymryd rhagofalon priodol
- Sicrhau bod contractwyr a benodir i drin, symud a chael gwared ar wastraff yn gymwys
- Dylai contractwyr asesu a rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â'u gweithgareddau
- Efallai fod gan drefnwyr digwyddiadau a chontractwyr ddyletswyddau o dan ddeddfwriaeth diogelu'r amgylchedd a gaiff ei gorfodi gan Asiantaeth yr Amgylchedd ac Asiantaeth Diogelu Amgylchedd yr Alban

17. Sŵn

- Mae Rheoliadau Rheoli Sŵn yn y Gwaith 2005 yn berthnasol i'r holl weithwyr a chontractwyr sy'n agored i gerddoriaeth uchel mewn digwyddiadau
- Er nad yw gwirfoddolwyr yn cael eu cwmpasu gan y Rheoliadau Sŵn yn y Gwaith, mae a3 Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith yn berthnasol iddynt
- Mae Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974 hefyd yn berthnasol i aelodau'r gynulleidfa sy'n agored i gerddoriaeth uchel.
- Dylid asesu'r risgiau o fod yn agored i sŵn i weithwyr ac eraill yn y gwaith
- Dylid lleihau nifer yr achosion o weithwyr ac eraill sy'n agored i lefelau sŵn niweidiol cyn belled ag sy'n ymarferol bosibl
- Dylai pawb sydd â dyletswyddau i reoli bod yn agored i sŵn gyfathrebu a chydweithredu â'i gilydd i reoli'r risg. Mae angen i bawb sy'n gweithio mewn digwyddiadau gymryd cyfrifoldeb personol dros fod yn agored i sŵn eu hunain a chymryd gofal rhesymol i beidio â niweidio eu clyw eu hunain neu glyw pobl eraill

- Mae cyfrifoldeb cyfreithiol i ddefnyddio offer amddiffyn clyw personol mewn rhai mannau os na ellir rheoli lefelau sŵn ar lefel ddiogel
- Mae llawer o fesurau rheoli sŵn yn syml a chost-effeithiol
- Gall y gynulleidfa ddal i fwynhau'r perfformiad â'r rheolaethau hyn ar waith

18. Glanweithdra

- Rhaid i drefnwyr digwyddiadau ddarparu cyfleusterau glanweithiol a lles addas a digonol ar gyfer gweithwyr mewn digwyddiad
- Bydd trefnwyr cyfrifol yn darparu cyfleusterau glanweithiol a lles priodol ar gyfer y gynulleidfa
- Mae darparu cyfleusterau lles ar gyfer y gynulleidfa yn rhoi manteision cadarnhaol o ran rheoli risgiau iechyd a chyfrannu at les ac ymddygiad y gynulleidfa
- Gall deddfwriaeth trwyddedu sy'n cael ei gorfodi gan Awdurdodau Lleol ei gwneud yn ofynnol darparu cynnyrch glanweithiol a lles ar gyfer y rhai sy'n mynychu

19. Gwersyllfeydd

- Sicrhau darpariaeth ddigonol o wasanaethau ar gyfer holl gyfnod y digwyddiad gwersylla
- Bydd rhannu'r safle yn ardaloedd llai yn ei wneud yn haws ei drin
- Bydd proffil cynulleidfa yn helpu i bennu dwysedd y safle
- Dylai cynlluniau wrth gefn gynnwys darparu cysgod ar gyfer gwersyllwyr nad oes modd defnyddio eu pebyll oherwydd tywydd drwg neu ddigwyddiadau andwyol
- Dylid ystyried pob agwedd ar ddiogelwch tân a materion iechyd cyhoeddus, fel y nodwyd yn yr asesiad risg, yn ofalus

20. Gwybodaeth a Lles

- Bydd cynnig gwasanaethau lles yn helpu'r digwyddiad i redeg yn esmwyth
- Bydd sicrhau bod y gynulleidfa yn wybodus o gymorth wrth reoli'r dorf
- Gellir darparu gwybodaeth drwy wefan y digwyddiad, cyfryngau cymdeithasol, taflenni, tocyn i'r digwyddiad, llinell ffôn, pwyntiau wybodaeth, stiwardiaid gwybodus, mapiau safle, rhaglen y digwyddiad, ac ati

21. Darparu bwyd, diod a dŵr

- Gwirio deddfwriaeth bwyd a diod lleol, oherwydd gall fod amrywiadau rhanbarthol
- Sicrhau bod cyflenwad digonol o ddŵr ar gael. Gall methu â gwneud hynny arwain at ganlyniadau sylweddol
- Dylai lefelau hylendid a glanweithdra gydymffurfio â chanllawiau a deddfwriaeth gyfredol
- Ystyried Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus ac Atebolrwydd Cynnyrch yn ogystal ag Yswiriant Gorfodol Atebolrwydd Cyflogwyr

22. Diogelu plant a phobl ifanc

- Y nod allweddol yw sicrhau bod plant sy'n mynychu'r digwyddiad yn cael eu cadw'n ddiogel ac yn rhydd rhag niwed
- Dylai trefnwyr digwyddiadau sicrhau eu bod yn gyfarwydd â deddfwriaeth a gofynion lleol a chenedlaethol
- Paratoi polisi ar gyfer plant sydd ar goll a phlant y doir o hyd iddynt, trefnu manau penodol ar gyfer plant sydd ar goll a phlant y doir o hyd iddynt, ac ystyried darparu man cyfarfod lle gall rhieni gasglu eu plant yn eu harddegau ar ddiwedd y digwyddiad

23. Lles Anifeiliaid

- Sicrhau bod arferion lles gorau yn cael eu dilyn drwy ystyried presenoldeb milfeddyg mewn sioe amaethyddol. Rôl milfeddyg fyddai canolbwyntio ar atal clefydau heintus, a darparu triniaeth os bydd damweiniau
- Dylid llunio cynllun lles i gwmpasu risgiau canfyddedig a allai ddigwydd
- Cynnwys map o safle'r sioe i gynorthwyo'r staff, y milfeddyg, cystadleuwyr, arddangoswyr masnach a'r cyhoedd